# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2416(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 10 Rhagfyr 2009

**At Jenny Randerson:**

Yn ystod y Cwestiynau a ofynnwyd i Brif Weinidog Cymru ar 24 Tachwedd, codwyd pryderon gennych ynghylch Gwasanaethau Meddygon Teulu a Fferyllfeydd. Addawodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch chi ynglŷn â'r pwyntiau a wnaethoch.

Ysgrifennoch ataf ar 16 Tachwedd gan fynegi pryderon ynghylch nifer meddygfeydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yng Nghaerdydd sydd â rhestrau llawn. Yn fy ymateb, dywedais wrthych fy mod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan ofyn iddi ysgrifennu ataf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r BILl i fynd i'r afael â'r broblem a'r camau a gymerwyd ganddo.

O ran y gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllfa, mae gwasanaethau gwell trwy'r contract fferyllfeydd cymunedol yn cael eu cynllunio a'u datblygu gan Fyrddau Iechyd Lleol lle y bo'n briodol ac yn unol ag anghenion y bobl leol. Mae manylion templed ar gyfer gwasanaethau gwell wedi'u datblygu i sicrhau elfen o ddilyniant, er y gellir addasu'r rhain i'w defnyddio'n lleol. Er bod Byrddau Iechyd Lleol yn rhannu gwybodaeth a phrofiad, maent wedi datblygu'r gwasanaethau hyn yn hanesyddol fel y maent yn ei ystyried yn addas. Fodd bynnag, bydd y gwaith o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn cynyddu'r cydweithio ac yn annog Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu dulliau Cymru gyfan o ddatrys problemau fel hyn.

Yn ogystal, fel y gwyddoch, mae fy Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Fferyllfa eisoes wedi argymell y dylid safoni gwasanaethau gwell o fewn fframwaith y contract ar gyfer fferyllfeydd ledled Cymru. Rwyf wedi gofyn iddynt fwrw ymlaen â'r gwaith hwn a sicrhau bod eu hargymhellion yn cael eu gweithredu.

Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio ar hyn gyda rhanddeiliaid allweddol a'r GIG, ac rwy'n disgwyl cael yr adroddiad terfynol gan y Grŵp ym mis Rhagfyr. Bydd y gwaith hwn yn ategu ein hymdrechion i harneisio potensial fferyllfeydd cymunedol i wella canlyniadau ar gyfer cleifion a dangos pwysigrwydd Fferyllwyr Cymunedol fel rhan annatod o ddarpariaeth iechyd.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2408(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 10 Rhagfyr 2009

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 24 Tachwedd, mynegoch bryderon am ddarpariaeth gwasanaethau cadair olwyn ledled Cymru. Addawodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y pwyntiau a godwyd gennych.

Mae'r amser y mae rhai cleifion yn aros i gael eu hasesu, ac i dderbyn cadeiriau olwyn, yn achos pryder imi. Mae darparu gwasanaethau cadair olwyn yn gyfrifoldeb ar y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) yn bennaf. Nid yw hwn yn wasanaeth i Gymru gyfan, ond mae wedi'i leoli mewn dwy ganolfan; yng Nghaerdydd a Wrecsam. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth o gadeiriau olwyn a seddi arbennig ar y gweill yng Nghymru.

Mae uwch-swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cydweithio â gweithwyr

iechyd proffesiynol, rhanddeiliaid allweddol eraill, a defnyddwyr gwasanaethau, i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, nodi unrhyw fylchau ac ystyried sut y gellid gwella gwasanaethau. Cam cyntaf yr adolygiad hwn oedd asesu'r drefn bresennol ar gyfer darparu cadeiriau olwyn (cymhleth a safonol) drwy wasanaeth ALAS, a chynghori ar unrhyw ddulliau posibl o leihau amseroedd aros.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar argymhellion adroddiad cam un, sy'n cynnwys argymhellion penodol yng nghyd-destun y llwybr cyfeirio ac asesu; y polisi rheoli rhestrau aros; staffio, gan gynnwys hyfforddiant; rôl peirianneg adsefydlu a'r gwasanaeth cynnal a chadw; yn ogystal â materion yn gysylltiedig ag ariannu ac ansawdd gwasanaeth. Bydd Cam Dau yr adolygiad, a fydd yn ceisio datblygu cynlluniau penodol ar gyfer y gwasanaeth, yn cychwyn yn gynnar yn 2010. Byddaf yn gwneud datganiad i gadarnhau cyfeiriad Cam Dau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Bydd y datganiad ar y gyllideb derfynol, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir, yn darparu arian ychwanegol i wasanaethau cadair olwyn i oedolion a phlant, a fydd yn lleihau amseroedd aros am asesiadau a derbyn cadeiriau olwyn.

Fy mhrif flaenoriaeth fydd mynd i'r afael ag amseroedd aros hir i blant ledled Cymru, ac i oedolion, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.